

REPORT OF WALES AUDIT OFFICER

SUBJECT: REVIEW OF INVOLVEMENT

Introduction

The Well-being of Future Generations Act (the 'Act') requires public bodies in Wales to think about the long-term impact of their decisions, to work better with people, communities and each other, and to prevent persistent problems such as poverty, health inequalities and climate change. The Act also puts in place a 'sustainable development principle' which tells those public bodies covered by the Act how to go about meeting their duty.

The Wales Audit Officer has responsibility for how organisations meet the requirements of the Act.

Review of Involvement

During 2019-20, the Performance Audit element of the Wales Audit Office plan for the Authority included a "Review of Involvement". This work was based on two case studies:

- the involvement of stakeholders in developing the Newport information hub and community centre; and
- volunteering and the new Volunteer Forum.

Annex A provides the report from the Wales Audit Office. Officers from the Audit Office will present the report and respond to any issues raised by Members.

Recommendation: Members are asked to RECIEVE this report

(For further information, please contact Tegryn Jones, tegrynj@pembrokeshirecoast.org.uk, or Mair Thomas, mairt@pembrokeshirecoast.org.uk)



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad o Gyfranogiad – Awdurdod **Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1742A2020-21



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Matthew Brushett, Euros Lake a Steve Frank.

Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn datblygu dull mwy corfforaethol a chyson o ran cyfranogiad, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses o benderfynu ar flaenoriaethau gwariant a chryfhau ei allu i wrthsefyll.

Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	4
Cyfranogiad	5
Cwmpas ein harchwiliad	6
Ein canfyddiadau	7
Cynigion ar gyfer gwella	13

Atodiadau


Atodiad 1 – enghreifftiau o ddulliau o sicrhau cyfranogiad mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y DU	16
---	----

Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sy'n dweud wrth y gyrff cyhoeddus hynny sy'n dod o dan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.
- 2 Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried effaith bosibl eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 1**. Drwy ddilyn y ffyrdd hyn o weithio bydd hynny'n helpu gyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd yn well, osgoi gwneud yr un camgymeriadau eto a mynd i'r afael â rhai o'r heriau y bydd Cymru yn eu hwynebu yn yr hirdymor.

Arddangosyn 1 – egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio



Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **Yr Hanfodion**

Cyfranogiad

- 3 Mae cyfranogiad yn golygu cael sgysiau cyfoethog ac ystyrion gyda'r bobl yn eu cymuned, gan ddod i wybod beth sy'n bwysig iddynt, a sicrhau bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y penderfyniadau y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn eu gwneud. Mae cyfranogiad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud dros'. Mewn gwrthgyferbyniad ag ymgynghori, mae cyfranogiad yn golygu gweithio gyda phobl ar gamau cynharach, megis helpu i nodi problemau ac atebion posibl, a chael cymorth i barhau i gyfranogi drwy gydol y prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.
- 4 Gan ddefnyddio ein cyflwyniad adborth mwyaf diweddar i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr 'Awdurdod') a roddwyd ar 11 Ebrill 2019 a'r cyflwyniad i'r Awdurdod ar 8 Mai 2019, mae [Diogelwyr Taith](#) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#) a ddatblygwyd gan Participation Cymru, [Arddangosyn 2](#) yn crynhoi nodweddion sefydliad sy'n sicrhau cyfranogiad yn effeithiol.

Arddangosyn 2 – nodweddion corff cyhoeddus sy'n sicrhau cyfranogiad yn effeithiol

Mae cyfranogiad effeithiol yn cynnwys...



- 5 Felly, dylai awdurdodau bennu eu agenda drwy wrando ar bobl, sicrhau eu cyfranogiad mewn ffordd ystyrlon ym mhob rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, a bod yn agored i newid gwirioneddol o ganlyniad. Mae'n hollbwysig bod gweithgareddau a systemau ar gyfer sicrhau cyfranogiad pobl yn cael eu cynllunio, eu monitro a'u cofnodi'n briodol, fel bod modd eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae'n hollbwysig sicrhau bod staff a sefydliadau yn meddu ar y sgiliau a'r strwythurau angenrheidiol, yn ogystal â chael yr amser a'r adnoddau i sicrhau cyfranogiad y cyhoedd yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac anghenion y cyhoedd, yn hytrach na'r hyn sy'n gweithio orau, yn ein tyb ni, yn draddodiadol.

Cwmpas ein harchwiliad

- 6 O ystyried yr heriau i gyrrff cyhoeddus wrth ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi adolygu'r ffordd y mae'r Awdurdod yn sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a rheoli'r broses honno wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisïau, ac wrth ddylunio gweithgareddau. Edrychwyd yn fanylach ar ddau brosiect, sef:
- cyfranogiad rhanddeiliaid wrth ddatblygu **hwb gwybodaeth a chanolfan gymunedol Trefdraeth**. Hwylusodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y broses o drosglwyddo un o'i adeiladau yn Nhrefdraeth fel ased i grŵp cymunedol er mwyn darparu llyfrgell, gofod cymunedol, gweithfan hyblyg galw heibio i staff a chanolfan groeso i ymwelwyr. Er mwyn rhoi'r prosiect hwn ar waith, defnyddiwyd amser staff, ac ychydig o gyfalaf cychwynnol i wneud y gwasanaethau cyfleustodau yn ddiogel.
 - **gwirfoddoli a'r Fforwm newydd i Wirfoddolwyr**. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael cymorth gan grŵp o tua 70 o Wardeiniaid Gwirfoddol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, a 40 o wirfoddolwyr eraill sy'n rhoi cymorth ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau yn rheolaidd, yn ogystal â chymryd rhan mewn rhaglen o dasgau ymarferol. Mae'r Wardeiniaid Gwirfoddol yn atebol yn uniongyrchol i Wasanaeth Parcmyn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr llawn amser yn integreiddio eu gwaith â gwaith Cyfeillion y Parc Cenedlaethol. Fforwm y Gwirfoddolwyr sy'n ysgogi'r cynllun gweithredu ar gyfer gwirfoddoli, sef cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n gysylltiedig â Chynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol. Mae hwn yn rhoi llais i wirfoddolwyr ac yn creu cysylltiad â'r Awdurdod, ac yn rhoi cyfle i gyfrannu at y ffordd y mae gwaith gwirfoddoli yn datblygu. Gwneir amrywiaeth o waith ataliol drwy gyfleoedd, gweithgareddau neu brosiectau i wirfoddolwyr, gan gynnwys prosiect partneriaeth atgyfeirio meddygon teulu Cerdded er Llesiant, gweithgarwch gwirfoddol i gefnogi arweinwyr, gan gynnwys gweithgareddau 'Walkability' a gwirfoddoli yn yr awyr agored, yn enwedig drwy'r prosiect Llwybrau sy'n cynnig manteision penodol o ran llesiant meddyliol a chorfforol.

Ein canfyddiadau

- 7 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr **Awdurdod yn datblygu dull mwy corfforaethol a chyson o ran cyfranogiad, ond bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses o benderfynu ar flaenoriaethau gwariant a chryfhau ei allu i wrthsefyll**. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol.

Mae'r Awdurdod wedi dechrau nodi pwy y bydd angen iddo eu cael i gyfranogi yn y broses o ddatblygu polisïau a chynlluniau prosiectau unigol ond bydd angen iddo sicrhau bod ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu Corfforaethol yn cyflwyno dull mwy cyson drwy'r sefydliad cyfan

- 8 Mae diffinio 'pobl' i gyfranogi yn heriol oherwydd mae cyfranogiad nid yn unig yn ymwneud â'r bobl sy'n byw yn ardal y Parc, y busnesau sy'n gweithio yn ardal y Parc a'r partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus, ond hefyd y boblogaeth ehangach. O ganlyniad, mae angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ystyried twristiaid/ymwelwyr â'r Parciau Cenedlaethol. Daw llawer o'r rhain o'r tu allan i Gymru, a gall fod yn heriol ymgysylltu â nhw. O fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gwelwn fwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn, gan gynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME). Nid yw effaith ymgysylltu o'r fath yn amlwg eto, ond mae newidiadau diweddar yn rhoi'r Awdurdod mewn gwell sefyllfa i gefnogi grŵp mwy amrywiol o rhanddeiliaid a sicrhau eu cyfranogiad.
- 9 Mae Cynllun Gweithredu a Grŵp Ymgysylltu'r Awdurdod yn cefnogi ac yn ysgogi dull llawer cliriach a mwy strategol o sicrhau cyfranogiad. Mae'r Cynllun yn cynnwys tair blaenoriaeth glir sy'n seiliedig ar feini prawf Participation Cymru ac sy'n cynnwys cynllun gweithredu tair blynedd CAMPUS. Mae'r Cynllun yn cynnwys 24 o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar lawer o'r agweddau a geir yn ein llwybrau ymholi ar gyfer yr archwiliad hwn.
- 10 Mae'r Awdurdod wedi cynyddu nifer y rhanddeiliaid y mae'n ymgysylltu â nhw a'u hamrywiaeth. Ceir enghreifftiau da o sicrhau cyfranogiad cymdeithasau tai, meddygon teulu a pherchenogion tir yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Rheoli 2020-2025 y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dysgu o'r gwaith a wnaed ar ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'i waith ar helpu i sefydlu Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd â statws elusennol.
- 11 Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd amlwg o ran cynyddu nifer y gwirfoddolwyr ac mae'n sicrhau eu bod yn cael cyfranogi yn y broses o benderfynu ar flaenoriaethau gwaith a sut i ddenu gwirfoddolwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae dull gweithredu llawer mwy strategol ar waith drwy Fforwm y Gwirfoddolwyr, ac mae gan yr Awdurdod 150 o wirfoddolwyr erbyn hyn, sydd wedi dyblu mewn blwyddyn yn ôl. Soniwyd wrthym hefyd am gynyddu'r cyfleoedd i ffurfioli hyfforddiant i wirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod yr

her barhaus sy'n gysylltiedig â chael ei arwain yn gynyddol gan ddefnyddwyr a hefyd amrywio'r cyfleoedd gwirfoddoli a gynigir er mwyn ehangu ei apêl.

- 12 Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd denu cynulleidfaoedd iau ac, fel y cyfryw, gall roi enghreifftiau o'r ffordd y mae wedi mynd ati i sicrhau cyfranogiad pobl iau yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau a rhaglenni gwaith. Mae hyn yn bwysig oherwydd, yn draddodiadol, mae'r rhan fwyaf o'r 150 o wirfoddolwyr yr Awdurdod wedi bod yn bobl hŷn. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo ehangu ac amrywio'r cyfleoedd gwirfoddoli a gynigir er mwyn gwneud hyn yn fwy cynaliadwy. Mae Maniffesto Ieuenctid yr Awdurdod yn hyrwyddo'r broses o sicrhau cyfranogiad pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau a datblygu polisïau ac mae hyn wedi helpu i lunio pecynnau addysg ar fioamrywiaeth a pholisi diogelu'r Awdurdod.
- 13 Mae'r Awdurdod yn newid ei ffocws o weithgareddau mwy traddodiadol megis cynnal a chadw llwybrau troed i gyfleoedd strategol ehangach i ddefnyddio gwirfoddolwyr i gynyddu adnoddau, gwella ansawdd gwasanaethau a galluogi'r staff i ganolbwyntio ar dasgau eraill a gwneud rhagor gyda'r arian cyhoeddus sydd ar gael iddynt. Mae manteision meddalach hefyd yn gysylltiedig â bod yn fwy strategol o ran gwirfoddoli, gan gynnwys pontio rhwng yr Awdurdod a'i gymunedau, helpu i ymgysylltu â chleientiaid anodd eu cyrraedd, cynyddu amrywiaeth a all gyfoethogi'r sefydliad drwy ddefnyddio'r amrywiaeth eang o rinweddau, sgiliau ac arbenigedd y gall gwirfoddolwyr eu cyfrannu.
- 14 Fodd bynnag, un thema gyffredin a gododd yn ein cyfweiliadau yw'r angen i wneud brand y Parc Cenedlaethol yn fwy atyniadol i gynulleidfa ehangach. Mae cynigion ar gyfer y wefan newydd yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel adnodd ymgysylltu, ac mae'n cynnwys cynigion i baratoi taflenni wedi'u teilwra sy'n cael eu dylunio ar y cyd ag amrywiol rhanddeiliaid. Gall yr Awdurdod amlinellu sut y bydd y wefan newydd yn dod yn adnodd i'r gymuned, nid dim ond i roi gwybodaeth ond hefyd i dynnu sylw at waith partneriaid. Bydd angen i'r fath ymgysylltu cynyddol ar-lein a ragwelir gael ei lywio gan ddealltwriaeth glir o'r rhanddeiliaid y mae wedi'i anelu atynt. Mae'r Awdurdod wrthi'n cynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid, ond dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod angen mwy o waith dadansoddi er mwyn sicrhau ei fod yn nodi ystod gyflawn o fuddiannau ac ymgysylltu â nhw. Mae uwch-reolwyr yn dal i gredu bod cyfle i fanteisio'n llawn ar y data sydd ganddynt ar ymgynghori ac maent o'r farn bod angen gwneud mwy i sicrhau cynigion ar gyfer hwb cyfranogi canolog.
- 15 Mae Fforwm Mynediad a Fforwm Gwirfoddolwyr yr Awdurdod wedi gwneud ymdrech i wella mynediad i'r Parc i grwpiau nas clywir yn aml. Mae'r Awdurdod yn targedu grwpiau anabl a'r rhai na fyddant o bosibl yn defnyddio'r Parc fel arall drwy fapio'r llwybr arfordir gan ddefnyddio Google Street View a all helpu pobl i adolygu addasrwydd y dirwedd a chynllunio eu hymweliadau yn unol â hynny.
- 16 Mae pobl yn Nhrefdraeth yn cael budd o gyfranogi yn y gwaith o achub adeilad rhestredig pwysig a chadw'r llyfrgell, y ganolfan gymunedol a'r hwb gwybodaeth i dwristiaid. Llwyddodd yr Awdurdod i sicrhau'r canlyniad cywir ar ôl proses

ymgysylltu a chyfranogiad anodd i ddechrau, gan ddysgu gwersi ar sut y gall wella'r ffordd y mae'n gweithredu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu polisi a phroses ffurfiol o sicrhau cyfranogiad cynghorau cymuned mewn ystyriaethau sy'n ymwneud â rheoli asedau. Yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod fyfyrir ar yr elfennau o drosglwyddo asedau cymunedol mewn ffordd holistaidd, fel y nodwyd yn ein [Hadroddiad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol](#).

- a) Mapio asedau a'r galw am ei ddefnydd
 - b) Gweledigaeth a rennir, ac sydd wedi'i mynegi'n glir, ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol
 - c) Sicrhau bod asedau'n addas i gael eu trosglwyddo
 - ch) Mapio a meithrin gallu'r gymuned yn weithredol
 - d) Proses gefnogol a rhagweithiol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol
 - dd) Cynllun busnes ymarferol y cytunwyd arno gan yr holl bartïon
 - e) Ystyried cymorth, cefnogaeth a dysgu ar ôl trosglwyddo'r ased
- 17 Mae'r Awdurdod yn sicrhau cyfranogiad staff a grwpiau mynediad yn y gwaith o ddatblygu darpariaeth Gymraeg ym mhob un o'i ganolfannau i ymwelwyr, ar arwyddion dynodi llwybr a gwybodaeth cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i dwristiaid. Wrth ddatblygu polisi newydd, neu ddiwygio polisi sy'n bodoli eisoes, mae'r Awdurdod yn ystyried yr effaith bosibl ar ei ddarpariaeth Gymraeg cyn cymeradwyo unrhyw benderfyniad polisi.
- 18 Mae adolygiad o sylwadau cwsmeriaid ym mhob un o atyniadau'r Awdurdod i ymwelwyr wedi arwain at ddatblygu Castell Henllys fel hwb diwylliannol Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth ehangach o weithgareddau a llwybrau mwy hygyrch i mewn ac allan o'r adeiladau. Hefyd, nododd yr adolygiad hwn y cyfleoedd i hyrwyddo gweithgareddau iechyd a lles yn well i gynulleidfa ehangach. Mae pecyn cymorth penodol bellach ar gael i feddygon teulu lleol a chomisïynwyr iechyd, ond nid yw effaith hyn yn glir ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod hefyd wedi adolygu amseroedd agor pob canolfan i ymwelwyr, gan arwain at amseroedd agor mwy hygyrch a mwy o ymwelwyr yn defnyddio gwasanaethau yn ystod yr wythnos.
- 19 Yn ogystal â darparu gwybodaeth, mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hyrwyddo'r defnydd diogel o'r Parc. Mae canllawiau ar gerdded yn ddiogel wedi cael eu datblygu ar y cyd â Chymdeithas y Cerddwyr. Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso rhai o'r gwersi a ddysgwyd ganddo ar ôl gwerthuso prosesau ymgysylltu a chyfathrebu blaenorol wrth ddatblygu ei Gynllun Rheoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol.
- 20 Mae sgiliau cyfranogiad staff yn datblygu'n dda, ac mae'r Awdurdod yn buddsoddi mewn pecynnau hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhai rhithwir, ac yn defnyddio'r system arfarnu staff i sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid fel rhan o swydd pawb. Ystyrir bod aelodaeth draws-sefydliadol Grŵp y Cynllun Gweithredu Ymgysylltu yn gryfder y mae angen i'r Awdurdod ei gynnal. Mae'r grŵp yn sicrhau bod amrywiaeth o staff o bob rhan o'r Awdurdod yn cael mynegi barn ar y gwaith o lunio gweithgareddau ymgysylltu ac mae'n mynd at i'w gwneud yn haws

ymgysylltu, nodi a dileu rhwystrau i gymryd rhan, yn enwedig gyda grwpiau nas clywir yn aml.

- 21 Y mater a godwyd amlaf gan staff ac Aelodau yn ystod ein cyfweiliadau yw paratoi staff ar gyfer newid a sicrhau cyfranogiad staff a rhanddeiliaid yn y broses o gytuno ar flaenoriaethau strategol a gweithredol a nodi'r hyn sy'n llai o flaenoriaeth yn y dyfodol. Er bod siarter i'r Aelodau a grŵp datblygu ar waith, gallai'r Awdurdod wneud rhagor i deilwra hyfforddiant i'r Aelodau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol i lunio'r hyn y mae cyfranogiad yn ei olygu iddynt hwy a'r Awdurdod. Mae prif ffrydio egwyddor datblygu cynaliadwy yn dal yn her sy'n gofyn am ddealltwriaeth drwyadl, arweinyddiaeth a sicrhau bod y diwylliant cywir ar waith.
- 22 Mae tensiwn rhwng dau brif ddiben yr Awdurdod – gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc. Erys y gwaith o reoli effaith bosibl cynyddu nifer yr ymwelwyr yn y dyfodol – gwneud twristiaeth a'i heffaith ar y Parc yn gynaliadwy o ran yr amgylchedd – yn her allweddol i'r Awdurdod a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae gallu'r Awdurdod i gryfhau ei waith ar gyfranogiad yn anodd yn yr amgylchedd gweithredol ac ariannol heriol ac mae'n rhaid iddo flaenoriaethu cyllid yn y dyfodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau cyfyngedig


- 23 Mae rhywfaint o gyfle i leihau'r pwysau ar adnoddau'r staff drwy ad-drefnu polisïau a chynlluniau. Ar hyn o bryd, defnyddir cryn dipyn o adnoddau i ddatblygu cynlluniau statudol megis Cynllun Rheoli pum mlynedd y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol deng mlynedd. Mae rhai llwyddiannau amlwg o ran cysoni dyddiadau cynlluniau allweddol, ac integreiddio polisi Amgylcheddol yr Awdurdod, â'r cynllun gweithredu newydd ar newid yn yr hinsawdd, ond mae'r staff y siaradwyd â hwy yn cydnabod bod mwy i'w wneud o ran integreiddio fforymau a chynlluniau gweithredol amrywiol, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y cynllun corfforaethol blynyddol a Chynllun Rheoli cyffredinol y Parc Cenedlaethol. Mae gan Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro y potensial i drawsnewid gweithgarwch ataliol a chydweithiol, ond megis cychwyn y mae'r gwaith hwn o hyd.
- 24 Effaith cyni cyllidol yw'r her fwyaf y mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei hwynebu o hyd. Mae natur fyrdymor cyllid Llywodraeth Cymru a'r penderfyniad i ddyrannu arian cyfalaf a refeniw ychwanegol yn agos i ddiwedd y flwyddyn yn parhau i effeithio ar allu'r Awdurdod i gynllunio ar gyfer yr hirdymor. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi ceisio nodi ffynonellau amgen o gyllid er mwyn gwrthbwysu'r gostyngiadau yn y grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd gweithredu presennol a'r heriau yn golygu bod amheuan ynghylch pa mor

gynaliadwy yw'r ffordd y mae'n sicrhau cyfranogiad, ac a all yr Awdurdod edrych i'r dyfodol dros gyfnod digon hir.

- 25 Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu rhywfaint o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd o ran cyllid hirdymor a gallai wneud rhagor i ddefnyddio ei adnoddau cyfyngedig yn y ffordd orau bosibl a manteisio i'r eithaf arnynt. Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi bod cyllid craidd yr Awdurdod, sef y grant a'r ardoll i barciau cenedlaethol wedi amrywio'n sylweddol ers 2013-14. Mae effaith y gostyngiadau blynyddol wedi cael ei gwrthbwysu yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19 drwy'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Arddangosyn 3: cyllid craidd a grantiau ychwanegol

Mae cyllid craidd drwy'r grant a'r ardoll i barciau cenedlaethol wedi lleihau ers 2013-14. Mae hyn wedi cael ei wrthbwysu gan gyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd ar ddiwedd 2016-17, 2017-18 a 2018-19.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Llythyr Archwilio Blynyddol, Rhagfyr 2019.

- 26 Yn seiliedig ar y ffaith nad oedd y cyllid grant ychwanegol wedi'i gynllunio, mae cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd hyn. Caiff yr arian ei gadw fel cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nes y cânt eu cymhwyso at ariannu'r gwariant – **Arddangosyn 4** isod. Mae ystyried balansau cronfeydd wrth gefn yn ofalus a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ariannol yn hynod o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus. Unwaith y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio, bydd yn rhaid nodi ffynonellau eraill o arian neu arbedion effeithlonrwydd.

- 27 Yr her i'r Awdurdod yw gwybod sut i sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses o benderfynu sut i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a gynhyrchwyd drwy grantiau annisgwyl yng nghyd-destun y gostyngiadau hirdymor yn ei gyllideb graidd.

Arddangosyn 4: cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio

Mae cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi cynyddu £2.17 miliwn rhwng 2013-14 a 2018-19 oherwydd pwysau ariannol ychwanegol yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Llythyr Archwilio Blynyddol, Rhagfyr 2019.

- 28 Er bod ei gronfeydd wrth gefn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi ceisio nodi ffynonellau amgen o arian er mwyn gwrthbwysu gostyngiadau yn y grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae llawer o'r gweithgarwch presennol o ran sicrhau cyfranogiad yn cael ei ariannu drwy grantiau. O ganlyniad, mae gormod o'r gweithgarwch hwn wedi'i arwain gan brosiectau, gydag amrywiadau o ran dull gweithredu a, than yn ddiweddar, ychydig iawn o ymgais i integreiddio neu gysoni dulliau gweithredu. Am fod pob prosiect wedi'i ariannu drwy grantiau gwahanol, yn gweithredu yn ôl meini prawf dyfarnu gwahanol, ac yn para am gyfnodau gwahanol, mae risg y bydd pob prosiect yn cyflawni canlyniadau gwahanol nad ydynt yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol.

Cynigion ar gyfer gwella

- 29 Yn hytrach na rhestru cynigion ar gyfer gwella, rydym wedi paratoi hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau'r ffordd y mae'n ceisio sicrhau cyfranogiad ar hyn o bryd. Gall yr hunanasesiad hwn gael ei ddefnyddio ar lefel strategol, gorfforaethol ond hefyd ar lefel prosiectau unigol er mwyn barnu pa mor dda y mae'r Awdurdod yn ei wneud a lle mae angen newid er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei brif ffrydio a'i wneud yn gynaliadwy. Disgwylwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r adnodd hwn i werthuso ei berfformiad presennol a nodi sut y gall wella ei waith.

Arddangosyn 5: hunanasesiad

Cam Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda bob amser ac nid oes angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda weithiau ond mae cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithredu	Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu
Rydym yn defnyddio dull strategol o sicrhau cyfranogiad sy'n arwain ein holl weithgarwch			
Rydym yn deall pwy sydd angen cyfranogi a pham			
Rydym yn blaenoriaethu'r lle, yr amser a'r adnoddau i sicrhau cyfranogiad ystyrlon			
Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch o ran cyfranogiad er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar ein polisiau a'n cynlluniau			

Cam Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda bob amser ac nid oes angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda weithiau ond mae cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithredu	Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu
Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch o ran cyfranogiad er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau			
Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd eu cyfranogiad yn helpu i wella eu bywydau			
Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd cyfranogi yn ein gwaith yn arwain at newid			
Rydym wedi esbonio effaith eu cyfranogiad ar ein penderfyniadau, ein polisïau a'n gwasanaethau			
Rydym yn teilwra'r ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad er mwyn gwneud yn siŵr y gall ein holl ddinasyddion a phartneriaid gymryd rhan.			
Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o'r gweithgarwch i sicrhau cyfranogiad er mwyn llunio a gwella polisïau a phenderfyniadau.			
Gallwn ddangos bod y ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn			
Gallwn ddangos bod y ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn arbed costau hirdymor			
Rydym yn sicrhau y gall yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid gyfranogi yn yr hyn a wnawn, a'r ffordd y gwnawn hynny			
Mae gennym gydberthnasau aeddfed ac ymddiriedus â'n holl randdeiliaid			

Cam Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda bob amser ac nid oes angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda weithiau ond mae cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithredu	Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen gwella'r ffordd rydym yn gweithredu
Mae'r ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn galluogi ein partneriaid i'n dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn			
Mae'r ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn galluogi dinasyddion i'n dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn			
Mae'r ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn bleserus ac yn fuddiol			
Mae ein partneriaid yn ystyried bod ein gwaith ar sicrhau cyfranogiad yn bleserus ac yn fuddiol			
Mae ein dinasyddion yn ystyried bod ein gwaith ar sicrhau cyfranogiad yn bleserus ac yn fuddiol			
Mae'r ffordd rydym yn sicrhau cyfranogiad yn ein helpu i integreiddio ein gwaith er mwyn osgoi seilos			
Rydym yn defnyddio ffrwyth ein gwaith ar gyfranogi i fynd ati i gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyd-gynhyrchu			
Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o gyfranogiad er mwyn dysgu beth sy'n gweithio			
Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o gyfranogiad i nodi'r hyn y mae angen ei wella			

Atodiad 1

Enghreifftiau o sicrhau cyfranogiad mewn Parc Cenedlaethol yn y DU

Mae Parciau Cenedlaethol Lloegr wedi paratoi rhai canllawiau i sefydliadau ac unigolion sydd am gyfranogi yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Gweler nationalparksengland.gov.uk/get-involved, [get-involved-in-a-national-park-management-plan](https://nationalparksengland.gov.uk/get-involved-in-a-national-park-management-plan) a [National Parks England publications](#). Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r diffyg canllawiau gan Barciau Cenedlaethol Cymru, er gwaethaf manteision cydweithio ar faterion cyffredin.

Mae parciau cenedlaethol mewn mannau eraill yn defnyddio cyfryngau lluosog a chymysg i ymgysylltu â chymunedau ac atal problemau. Gofynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs i'w gymunedau ateb y cwestiwn canlynol: **Sut rydych yn cael pobl sy'n ymddwyn yn anghyfrifol wrth fynd â'u cŵn am dro i newid eu hymddygiad heb eu demoneiddio?** Gweler yr ymatebion [yma](#) ac maent yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy weithredu'n wahanol o ran cael arbenigwyr pwnc a busnesau lleol i gyfranogi yn y broses o ddod o hyd i atebion.

Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2018-2020 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms yn cynnwys rhai nodweddion allweddol sy'n galluogi'r parc cenedlaethol hwn i sicrhau cyfranogiad yn fwy effeithiol. Ymhlith y nodweddion mae'r canlynol:

- gwybodaeth a data llinell sylfaen ar ba mor effeithiol y mae'r awdurdod parc cenedlaethol yn sicrhau cyfranogiad y cyhoedd, mesur o ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sy'n digwydd yn y parc cenedlaethol, sut maent yn hoffi cyfranogi, a barn pobl am wasanaethau;
- ymrwymiad i werthuso'r gwaith ar sicrhau cyfranogiad, gan fesur canlyniadau lle y bo modd, er mwyn profi effaith a dysgu a gwella'n barhaus;
- mae gweithgarwch ar sicrhau cyfranogiad yn integreiddio â gwaith partneriaid gerllaw ac ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft wythnos FAWR Scottish Nature;
- blaenoriaeth allweddol yw bod yr awdurdod parc cenedlaethol yn ysbrydoli cenedlaethau newydd i ddod yn hyrwyddwyr y parc ac arwain prosiectau cymunedol yn y dyfodol.

Mae adroddiad **Measuring Health and Well-being Impact** Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors ym mis Tachwedd 2018 yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a'r gwahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i waith yr Awdurdod. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- sut mae'r Awdurdod wedi cynnwys gweithgarwch sicrhau cyfranogiad yn ei gyfrifiadau o'i Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a'r gwerth y mae safbwyntiau pobl yn ei ychwanegu. Caiff newidiadau penodol ar ôl ymgynghori eu holrhain a'u gwerthuso.
- mae pobl yn cyfranogi'n well pan fyddant yn deall y manteision posibl i'w llesiant ac ar ôl cael gwybod am nodweddion arbennig y parc. Mae hyn yn cynnwys dweud

wrth bobl am yr hyn y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei wneud a sut yn union y gallant gyfranogi.

- mae'r Awdurdod o'r farn mai'r data gorau a gesglir yw'r hyn a gesglir fel rhan arferol o waith yr Awdurdod neu fel rhan annatod o unrhyw ymyriad, menter, rhaglen, neu weithgarwch. Mae'n cael bod pobl yn llai parod neu abl i roi adborth neu safbwyntiau mewn digwyddiadau â strwythur penodol a bod angen iddynt ddeall perthnasedd cyfranogi i'w bywydau a chael sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn gwneud i bethau newid.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru